# RHAGOLWG

## Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.

## [Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad Dydd Mawrth 21 Mawrth 2006]

**Dydd Mawrth 28 Mawrth a dydd Mercher 29 Mawrth 2006**

**Dydd Mawrth 4 Ebrill a dydd Mercher 5 Ebrill 2006**

***Toriad y Pasg 10 – 28 Ebrill 2006***

**Dydd Mawrth 2 Mai a dydd Mercher 3 Mai 2006**

**Dydd Mawrth 28 Mawrth 2006**

- **Motion to suspend Standing Order 17.4 to 17.6 (1 munud)**
- **Motio n to elect a Planning Decision Committee (1 munud)**
- **Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Amserau ymateb ambiwlansau a'r arolwg a gynhaliwyd gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru (30 mun)**
- **Cynnig i gymeradwyo, o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**
  - **Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2006**
    Effaith fwriedig yr Offeryn hwn yw enwi Church House Trust plc fel sefydliad benthyca cymeradwy at bwrpas yr hawl i brynu a gwerthiannau tebyg. Mae'r disgownt, neu ran ohono, a roddir i denantiaid sy'n manteisio ar yr hawl i brynu yn gorfod cael ei ad-dalu i'r awdurdod lleol os yw'r cartref yn cael ei ailwerthu cyn pen pum mlynedd (tair blynedd yn achos tenantiaid hŷn). Mae Deddf Tai 1985 yn sicrhau hawl yr awdurdod lleol i adfer ei ddisgownt trwy arwystl cyntaf ar dŷ cyn belled nad oes sefydliad benthyca cymeradwy wedi rhoi benthyciad diogel er mwyn i'r prynwr allu prynu'r tŷ. Os oes, mae

gan arwystl y sefydliad benthyca cymeradwy flaenoriaeth dros arwystl yr awdurdod lleol. O dan y ddeddf, dim ond rhai dosbarthau o gyrff sy'n cael bod yn sefydliadau benthyca cymeradwy. Caiff cyrff eraill wneud cais am Orchymyn i gael eu henwi fel sefydliadau benthyca cymeradwy.

- **Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2006**

  Deddf Llywodraeth Leol 2003 yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru nifer o bwerau gwneud Rheoliadau i ddarparu fframwaith manwl ar gyfer gweithredu system ddarbodus yng Nghymru. Cafodd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Rhagfyr 2003 ("y prif reoliadau"). Eu pwrpas oedd hwyluso cyflwyno a gweithredu system cyllid cyfalaf newydd, "y system ddarbodus" fel y'i disgrifir yn Rhan 1 Deddf 2003.

  Y gred bellach yw bod angen set arall o Reoliadau er mwyn cael gwneud nifer fach o newidiadau i'r prif Reoliadau. Bydd y Rheoliadau dan sylw yn gwneud newidiadau o ran:

  - rhifo a llythrennu rhan o'r prif Reoliadau;
  - trosglwyddo rhannau bychain o stoc dai Awdurdodau Lleol;
  - dosbarthu unrhyw ardoll sy'n daladwy ar ôl trosglwyddo stoc dai Awdurdod Lleol;
  - cyfrifo 'Gofyniad Cyllid Cyfalaf' Cronfa agoriadol y Cyngor;
  - pan fydd Awdurdod yn 'ddi-ddyled' o ran Tai at bwrpas cronni adnoddau.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cyngor Iechyd Cymuned (Sefydlu Cyngor Iechyd Cymuned Sir Gaerfyrddin, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu Cynghorau Iechyd Cymuned Llanelli/ Dinefwr a Chaerfyrddin/Dinefwr) 2006 (15 munud)**

  Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu Cyngor Iechyd Cymuned Sir Gaerfyrddin, yn trosglwyddo swyddogaethau, swyddogion ac aelodau Cyngor Iechyd Cymuned Caerfyrddin/Dinefwr a Chyngor Iechyd Cymuned Llanelli/Dinefwr i Gyngor Iechyd Cymuned Sir Gaerfyrddin ac yn diddymu Cynghorau Iechyd Cymuned Caerfyrddin/Dinefwr a Llanelli/Dinefwr. Bydd

Cyngor Iechyd Cymuned newydd Sir Gaerfyrddin yn gwasanaethu'r ardaloedd a wasanaethid gan Gynghorau Iechyd Cymuned Caerfyrddin/ Dinefwr a Llanelli/Dinefwr. Bydd ffin Cyngor Iechyd Cymuned newydd Sir Gaerfyrddin yn cyfateb i ffiniau Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin a Chyngor Sir Caerfyrddin.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (Ymchwiliadau Safonau) 2006 (15 munud)**
  Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnal ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am honiadau o gamymddwyn gan aelodau etholedig a chyfetholedig llywodraeth leol yng Nghymru, o 1 Ebrill 2006. Mae'n dirymu ac yn disodli 'Gorchymyn Comisiynydd Lleol yng Nghymru (Ymchwiliadau Safonau) 2001 (OS 2001 Rhif 2286 (Cy.174)), sy'n gwneud darpariaeth debyg ynghylch ymchwiliadau o'r fath gan y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru.
- **Cynnig i gymeradwy Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2006 (10 mun)**
  Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 trwy ychwanegu Rhan 4 newydd mewn cysylltiad â Rhestri Cyflawnwyr Deintyddol. Darparant ar gyfer rhestrau o bobl sy'n cyflawni gwasanaethau meddygol sylfaenol, i'w cadw gan Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau). I gael darparu gwasanaeethau deintyddol sylfaenol o dan gontract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, cytundeb Gwasanaethau Deintyddol Personol neu gan y BILl ei hun, rhaid i'r cyflawnwr deintyddol fod wedi'i gynnwys ar y rhestr o gyflawnwyr a gedwir gan y BILl.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Diwygio) 2006 (10 munud)**
  Bydd y Rheoliadau hyn yn cyfyngu'r hawl i gael presgripsiwn rhatach (a fydd am ddim maes o law) i'r cleifion hynny sy'n cael eu trin gan ragnodwr o Gymru sydd wedi'i gofrestru gyda Bwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru, hyd yn oed os ydynt o dan 25 oed.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2006 (10 munud)**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cynnydd o 20% yn holl ffïoedd caniatâd cynllunio yng Nghymru o 1 Ebrill 2006 ac ar gyfer cynnydd pellach o 10% o 1 Ebrill 2007. Maent hefyd yn symleiddio'r strwythur talu ac yn diddymu'r cais am ddim a ganiateir ar gyfer y rheini sy'n ailymgeisio i gysoni gwaith sy'n cael ei wneud ar dramgwyddo amodau a cheisiadau sy'n wahanol i'r cynlluniau cymeradwy.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Plant (Trefniadau Preifat ar gyfer Maethu) (Cymru) 2006 (10 munud)**
  Bydd y Rheoliadau hyn yn cymryd lle Rheoliadau Plant (Trefniadau Preifat ar gyfer Maethu) 1991 yng Nghymru yn dilyn diwygiadau adran 44 Deddf Plant 2004 i'r cynllun hysbysu am faethiad preifat a sefydlwyd o dan adran 67 Deddf Plant 1989. Bydd y Rheoliadau'n cryfhau'r fframwaith presennol ar gyfer hysbysu am drefniadau maethu preifat ac yn cryfhau swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol lleol i fodloni'u hunain ynghylch lles plant sy'n cael eu maethu trwy drefniadau preifat.

**Proposal to debate the following 3 items together but with separate votes (15 munud)**

- **Motion to approve The General Dental Services and Personal Dental Services Transitional and Consequential Provisions (Wales) (No.2) Order 2006 under Standing order 24.27(iv)**

  This Order makes further provision relating to the new contractual arrangements from 1 April 2006 for the provision of General Dental Services ,the abolition of pilot schemes for Personal Dental Services and their replacement with permanent arrangements, and arrangements following the abolition of the Dental Practice Board and the transfer of its functions to the NHS Business Services Authority.

- **Motion to approve The Functions of Local Health Boards and the NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) (Primary Dental Services) (Wales) Regulations 2006 under Standing Order 24.27(iv)**

  These Regulations provide for functions of Local Health Boards to be exercised by the new NHS Business services Authority from 1 April 2006

- **Motion to approve The National Health Service (General Dental Services Contracts and Personal Dental Services Agreements) Amendment (Wales) Regulations 2006 under Standing Order 24.27 (iv)**

  These Regulations make some minor changes to correct errors in the General Dental services Contracts and Personal Dental services Agreements Regulations, which came into force on 1 March 2006.

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru (45 munud)**

**<u>Dydd Mercher 29 Mawrth 2006</u>**

- **Cwestiynau i Brian Gibbons , y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**

- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**

- **Cwestiynau i Bwyllgor y Ty (5 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Diddymu Proffesiynau Iechyd Cymru (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau) (Pwer i Fasnachu) (Cymru) 2006 (10 munud)**
  Diben y Gorchymyn hwn yw rhoi'r pwer i fasnachu i awdurdodau lleol Cymru, o dan adrannau 95, 96 a 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cyfansoddi y Pwyllgor Cymreig Rhanbarthol Amddiffyn Rhag Llifogydd (Cymru) 2006 (10 munud)**
  Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio aelodaeth y Pwyllgor Rhanbarthol Amddiffyn Rhag Llifogydd i bwyllgor o ddeunaw aelod, wyth ohonynt i'w penodi gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, dau gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac wyth gan grwpiau o awdurdodau lleol cyfansoddol.

- **Dadl ar Gynigion ar gyfer Is-ddeddfwriaeth yn unol ag RhS33.11 (60 munud)**

- **Dadl fer (30 munud)**

**<u>Dydd Mawrth 4 Ebrill 2006</u>**

- **Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Datganiad gan y Trefnydd: Adroddiad ar Ddiogelu Plant Archolladwy (30 munud)**

- **Cynnig i Gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 fun)**
  - **Rheoliadau'r Ardrethi Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2006**
    Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Ardrethi Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2005 sy'n pennu'r rheolau ar gyfer apelio yn erbyn prisiad hereditament (eiddo neu uned y telir ardreth annomestig arno) a newid y Rhestr Ardrethi Annomestig yn sgil hynny. Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro nifer o wallau drafftio yn y Rheoliadau a enwir. Nid yw'r gwelliannau'n effeithio ar bwrpas bwriedig Rheoliadau 2005.

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (80 munud)**

- **Motion to approve The National Assistance (Assessment of Resources and Sums for Personal Requirements)(Amendments) (Wales) Regulations 2006 (10 munud)**

- **Motion to approve The Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2006 (10 munud)**

- **Motion to approve The Town and Country Planning (Fees for Applications and Deemed Applications)(Amendment No2) (Wales) Regulations 2006 (10 munud)**

- **Motion to approve The Tuberculosis (Wales) Order 2006 (10 munud)**

**<u>Dydd Mercher 5 Ebrill 2006</u>**

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor ar Seilwaith y Rheilffyrdd (60 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad yr Adolygiad Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio o Gamddefnyddio Sylweddau (60 munud)**

- **Y Ddadl Fer (30 munud)**

**<u>Dydd Mawrth 2 Mai 2006</u>**

- **Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 mun)**

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (40 mun)**

- **Motion to approve The Countryside and Rights of Way Act 2000 (Commencement No8 and Transitional Provisions)(Wales) Order 2006 (10 munud)**

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru (45 mun)**

- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (60 mun)**

**Dydd Mercher 3 Mai 2006**

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (30 mun)**
- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (30 mun)**
- **Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, yn unol â Rheol Sefydlog 6.28 ac fel a nodir yn y rhestr o gyfrifoldebau Gweinidogion (30 mun)**
- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ran 3 Deddf Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol 2003 i'r Prif Weinidog (10 mun)**
- **Dadl ar ESTYN – Adroddiad Prif Arolygydd Ysgolion ei Mawrhydi (60 mun)**
- **Dadl ar gynnig o dan Reol Sefydlog 31 (cynhaliwyd pleidlais ar 28 Chwefror 2006) (45 mun)**
- **Dadl fer (30 mun)**